**EITEM AR YR AGENDA: 5**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1af Rhagfyr 2006**

# CYLLID Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB 2007/08

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Pris Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi cyllideb refeniw a chyfalaf ddrafft 2007/2008 yr Awdurdod Tân ac Achub mewn cyd-destun

## Cyflwyniad

**2.** Wrth bennu cyllideb 2007/08 bydd Aelodau yn ymwybodol o'r amrywiol bwysau a chyfyngiadau sydd ar y gwasanaeth a'r sector gyhoeddus yn gyfan gwbl.

**3.** Mae'r papur hwn yn gosod y prif ddylanwadau hynny.

## Cefndir

**4.** Y cynydd cyfartalog mewn Grant Cynnal Refeniw (RSG) i Ogledd Cymru am 2007/08 yw 3.85%. Mae arbedion trwy wella effeithlonrwydd o 1% wedi ei adeiladu i'r gyfradd yma.

**5.** Disgwylir i'r arbedion yma cael eu hadnabod i'w hailgylchu i gwrdd â phwysau costau neu flaenoriaethau eraill.

**Cefndir** *(parhad)*

**6.** O Ebrill 2007 ymlaen, bydd system newydd o gyfrifo pensiynau Tân. Ni fyddant bellach yn cael eu talu o gyfrif refeniw y gwasanaeth. Bydd cronfa ar wahân yn cael ei sefydlu a bydd y gwasanaeth yn cyfrannu swm osodedig ar gyfer pob gweithiwr gweithredol (21.3% Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992, 11% Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 2006 o dâl pensiynadwy) i'r gronfa hon. Ar ddiwedd pob blwyddyn, bydd unrhyw ddiffyg yn y gronfa yn cael ei gwrdd gan y Llywodraeth, neu mewn cyfnodau o arian dros ben, yn cael ei ddychwelyd i'r Llywodraeth. Bydd hyn yn trosglwyddo'r risg o bensiynau tân yn codi dros y 5 mlynedd nesaf oddi ar yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

**7.** Er fod dyddiad codiad cyflog nesaf y diffoddwyr tân yn hysbys, 1af Mehefin 2007, yn bresennol, nid oes dim mecanwaith gytun i bennu hyn. Mae'n annhebygol i'r trafodaethau tâl orffen cyn Mehefin 2007. Wrth osod cyllideb, mae'r dybiaeth o chwyddiant tâl o 2.5% wedi cael ei ddefnyddio, oherwydd mai dyma'r uchafswm a nodir i dâl y sector gyhoeddus. Fe ddylai aelodau fod yn ymwybodol y gellir rhagori ar y gyfradd hon, ac am bob 1% ychwanegol, mae hyn yn gofyn am £154,000 ychwanegol.

**8.** Mae'r Awdurdod wedi gosod ei flaenoriaethau yn y Cynllun Lleihau Risg ac yn y flaenorol yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg. Felly, mae angen i'r ariannu gwrdd â'r blaenoriaethau hyn. Fe ddylid nodi'r effaith ar y gyllideb Gyfalaf ac o ganlyniad, cost benthyca ar gyllideb refeniw.

**Argymhelliad**

**9.** Fod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.